**AC-06-00(min)**

# PWYLLGOR ARCHWILIO

**COFNODION**

**Dyddiad:** 13 Gorffennaf 2000

**Amser**: 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1

**Yn bresennol**
**Aelodau**

Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru

Lorraine Barrett De Caerdydd aPhenarth

Jane Davidson Pontypridd

Geraint Davies Y Rhondda

Glyn Davies (yn lle Alun Cairns) Canolbarth a GorllewinCymru

Brian Gibbons Aberafon

Jenny Randerson (yn lle Peter Black) Canol Caerdydd

Dafydd Wigley Caernarfon

**Swyddogion**

Syr John Bourn Archwilydd Cyffredinol Cymru

Frank Grogan Y Swyddfa ArchwilioGenedlaethol

Sharon Davies Swyddog CydymffurfioDros Dro y Cynulliad Cendlaethol

Andrew George Clerc

Julie Bragg Dirprwy Glerc

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Derbyn Tystiolaeth**

**Papurau: AC-06-00(p.1)**

1.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Forglawdd Bae Caerdydd* a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2000.

**Tystion**

Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Michael Boyce Cyn Brif Weithredwr, Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd

Steve Phillips Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.2 Atodir adysgrif gair-am-air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
**Papur: AC-04-00(min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

2.3 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn yr Hydref a gallai ganolbwyntio ar amcangyfrif a rhaglen Archwilydd Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001-2002. Gellid defnyddio'r cyfarfod hwn hefyd i ddangos y sefyllfa gyfredol o ran adroddiadau a argymhellwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad Y Pwyllgor Archwilio ar *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99***

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r rhan hwn o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod lle: mae'r pwyllgor yn trafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y bwriada ei gyhoeddi.*

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a daethpwyd i gytundeb arno.

4.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.